Misoedd y Flwyddyn

Meira Shakespear

Cwestiwn: Sawl MIS sydd mewn BLWYDDYN? **Ateb:** DEUDDEG / un-deg-dau (12)

Mae'r flwyddyn yn troi fel olwyn …..
mae'r Nadolig yn dod yn ei dro a'r haf yn dilyn chwe mis wedyn.

Dyma enwau misoedd y flwyddyn yn eu tro.

1. Ionawr	4. Ebrill	7. Gorffennaf	10. Hydref
2. Chwefror	5. Mai	8. Awst	11. Tachwedd
3. Mawrth	6. Mehefin	9. Medi	12. Rhagfyr

Mae pob mis yn wahanol. Mae'r pethau sydd yn digwydd a'r pethau sydd i'w gweld yn newid bob mis, ac felly gallwn adnabod adeg y flwyddyn heb edrych ar y calendr.
Mae'r lluniau sy'n dilyn yn dangos rhywbeth sy'n perthyn i bob mis ond dydyn nhw **ddim** yn y drefn gywir e.e Llun 1 – **nid** ym mis Ionawr y byddwn ni'n gorwedd ar y traeth yn hanner noeth!

**Ar ôl meddwl ac efallai trafod yn y dosbarth,
ysgrifennwch enw'r mis cywir wrth ochr pob llun.**

[Byddai gwneud hyn mewn pensil yn syniad da i ddechrau os ydych chi'n gweithio ar gopi papur ond gallwch newid eich atebion yn haws ar sgrîn cyfrifiadur. Dydy ffitio pob un i mewn ddim yn hawdd a gall mwy nag un ateb fod yn gywir weithiau]



Beth arall sydd yn digwydd bob mis?
Meddyliwch yn arbennig am bethau sydd yn digwydd ym myd natur a chefn gwlad.

Cwblhewch y tabl trwy ysgrifennu brawddeg debyg am bob mis yn ei dro yn y drefn gywir. Mae dwy enghraifft yno yn barod.

Sylwch: mae angen i bob brawddeg ddechrau gyda **Ym mis** ….. [Gallwch wneud llun eich

hun neu gael llun o storfa o fewn eich cyfrifiadur.]

1 Ym mis

2 Ym mis

3 Ym mis Mawrth mae'r ffermwyr yn brysur yn y caeau.

4 Ym mis Ebrill mae'r gwenoliaid yn cyrraedd.

5 Ym mis

6 Ym mis

7 Ym mis

8 Ym mis

9 Ym mis

10 Ym mis

11 Ym mis

12 Ym mis

Dyddiadur y Ditectif Blwyddyn.

Beth am gadw dyddiadur o'r newid sydd yn digwydd o fis i fis?

Gallwch nodi pob math o bethau sydd yn dangos sut mae'r flwyddyn yn symud ymlaen. Gallwch gadw llygad ar agor am gliwiau ble bynnag rydych yn byw, yn y dref ac yn y wlad.

Dyma restr o'r MATH o beth fydd yn bwysig ond byddwch chi, fel pob ditectif da, yn sylwi ar lawer iawn mwy na hyn.

clywed
y gog (y gwcw)
peiriant torri lawnt am y tro cyntaf

gweld
draenogod (yn fyw neu yn farw ar y ffordd)
gwenoliaid yn casglu ar y gwifrau teliffon
ffermwyr yn torri gwair
defaid wedi eu cneifio
garddwyr yn sgubo dail
yr eira cyntaf ar y bryniau

sylwi
ble mae'r haul yn codi ac yn machlud
pryd mae blodau gwahanol yn agor
pryd mae angen gwres yn y cartref

Oes gennych chi gamera?
Dyna i chi ffordd wych o gofnodi tystiolaeth ddiddorol.

Dim camera?
Ta waeth. Mae pob ditectif yn gorfod dysgu sut i wneud brasluniau a gallwch chi wneud yr un peth.

Ar ddiwedd y flwyddyn anfonwch eich dyddiadur at Gwaith Maes.
Mae'n bur bosibl y bydd gwobr neu ddwy i'r goreuon.